

IORWERTH FYNGLWYD (fl. c. 1480-1527), bardd

Enw: Iorwerth Fynglwyd
Plentyn: Rhisiart Fynglwyd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Griffith John Williams

o Saint y Brid (neu St. Bride's Major) ym Mro Morgannwg; Prawf y cywyddau ymryson a fu rhyngddo â Rhisiart ap Rhys Brydydd ym mhlas [Siôn Stradling](#) yn y Merthyr Mawr mai'r bardd hwnnw oedd ei athro. Cadwyd dros 50 o'i gyfansoddiadau yn y llawysgrifau, a rhoddwyd sylw mawr iddynt, nid yn unig gan gopiwyr Morgannwg ond hefyd yn y Gogledd. Canodd lawer i foneddigion ei dalaith ei hun, i'r [Gameisiaid](#) a'r [Stradlingiaid](#) a'r Bawdremiaid a'r [Mawnselïaid](#), ac i [Ddafydd](#), abad Margam, rhwng 1500 a 1517. Ond ei brif noddwr ydoedd Rhys ap Siôn o Aberpergwm, yr enwocaf o'r teulu nodedig hwnnw. Bu hefyd yng Nghydweili ac Ystrad Tywi, a gellir tybied mai un o'i hoff gyrchfannau ydoedd llys [Syr Rhys ap Tomas](#), lle y cyfarfu â [Thudur Aled](#). Canwyd ei farwnad gan [Lewis Morgannwg](#), mab ei hen athro. Ac ef oedd tad [Rhisiart Iorwerth](#) (neu Rhisiart Fynglwyd), un o feirdd pwysicaf Morgannwg tua chanol yr 16eg ganrif.

Gellir edrych arno fel y mwyaf o gywyddwyr Morgannwg. Y mae'n feistr ar fawl confensiynol y beirdd, ond yr hyn a ddyry arbenigrwydd ar ei waith ydyw'r ddawn ddiarhebol a ganfyddir yn ei ganu cymdeithasol, y ddawn i gloi rhyw wirionedd mewn cwpled cofiadwy. Gwelir hyn yn y cywyddau a ganodd i gysuro Rhys ap Siôn o Aberpergwm wedi i'r g r hwnnw golli ei dreftadaeth am gyfnod a gorfod myned ar herw. Dyma rai o'r cywyddau mwyaf poblogaidd yng Nghymru yn yr 16eg ganrif, a dyfynnir ohonynt yng nghasgliad y [Dr. John Davies](#) o linellau trawgar o weithiau'r beirdd, sef y *Flores Poetarum Britannicorum*, 1710.

Ceisiodd '[Iolo Morganwg](#)' ei wneuthur yn saer cerrig enwog, un o hynafiaid y seiri honedig hynny, Richard a Wiliam Twrch, y mynnai iddynt godi porth y Bewpyr yn 1600. Ailadroddir y storïau hyn yn llyfrau'r ganrif ddiwethaf. Nid oes dim sail iddynt. Ni cheir yma ond ymgais '[Iolo](#)' i egluro rhai llinellau a welsai yng nghanu Iorwerth Fynglwyd.

Awdur

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

Ffynonellau

D. Rhys Phillips, *The History of the Vale of Neath* (Swansea 1925), 1925, 478, 501-9

Archaeologia Cambrensis, 1919

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 1948, 52-9

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Iorwerth Fynglwyd](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18535716](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.